



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o'r Grant Byw'n Annibynnol (ILG)

Crynodeb Ymchwil

Ymchwil cymdeithasol

Rhif: 19/2012

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r wybodaeth o werthusiad o grant £1.5m Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu addasiadau i gartrefi pobl hŷn yn ystod 2011-12.

Nod y gwerthusiad oedd:

- Sefydlu gwerth grantiau cyfleusterau i'r anabl o ran hwyluso annibyniaeth a lles ymysg y rhai oedd yn eu derbyn ac osgoi gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol
- Disgrifio'n fanwl y defnydd a wneir o'r grant a phenderfynu a gafodd amcanion y grant eu cyflawni
- Deall, ac asesu effeithiolrwydd y trefniadau partneriaeth sydd ar waith rhwng sefydliadau lleol i weinyddu'r grant
- Awgrymu materion i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu rhaglenni tebyg yn y dyfodol

Cefndir

Yn dilyn penderfyniad gan Llywodraeth Cymru (LIC) y dylid defnyddio adnoddau ychwanegol hyd at werth o £1.5m yn ystod 2011-2012 ar gyfer darparu cyfleusterau i bobl ag anableddau, cytunwyd y dylai'r gronfa gael ei dyrannu i Gofal a Thrwsio Cymru. Roedd yr arian i gael ei ddefnyddio i ddarparu Grant Byw'n Annibynnol (ILG) a ddefnyddid i wneud addasiadau a fyddai'n costio symiau ar y lefel ganol (hynny yw y rhai rhwng £1,000 a £10,000). Yn ystod trafodaeth rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Gofal a Thrwsio Cymru sefydlwyd sail ar gyfer y fenter. Yn dilyn ymgynghoriad â phartion eraill â diddordeb, gwahoddwyd asiantaethau Gofal a Thrwsio lleol, mewn cydweithrediad â phartneriaid mewn awdurdodau lleol mewn adrannau Tai, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ym Mai 2011 i wneud cynigion ar gyfer defnyddio'r grant yn lleol erbyn diwedd mis Mehefin yn y flwyddyn honno.

Roedd y gwahoddiad yn nodi'r amcanion, y bwriadau a'r meini prawf a ddylai lywio cynigion o'r fath. Ymatebodd partneriaethau yn cynrychioli dwy ar hugain o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru a dyrannwyd yr arian ym mis Awst.

Penodwyd ymgynghorwyr ym mis Gorffennaf i werthuso'r fenter ac maent wedi gweithio gyda Grŵp Ymgynghorol yn cynrychioli Is-adran Tai Llywodraeth Cymru, Gofal a Thrwsio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd Cymru, a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Methodoleg

Bu Gofal a Thrwsio Cymru yn monitro pa mor gyflym y defnyddiwyd yr arian ac yn darparu cyswllt rhwng asiantaethau lleol, Llywodraeth Cymru, y Grŵp Ymgynghorol a'r Tîm Gwerthuso.

Datblygwyd a dosbarthwyd templed casglu data i asiantaethau lleol i gofnodi gwybodaeth allweddol mewn perthynas â phob achos yr ymdriniwyd ag ef. Y dyddiad cau terfynol ar gyfer derbyn y ffurflenni hyn oedd 10 Chwefror.

Cwblhawyd arolwg o'r llenyddiaeth i roi cyd-destun ar gyfer darparu'r Grant Byw'n Annibynnol (ILG) ac i adnabod y manteision y gellid eu disgwyl o fenter o'r fath. Yn ogystal â'r manteision ansoddol oedd wedi'u hen sefydlu ar gyfer derbynwyr grantiau a'u gofalwyr ceisiodd yr adolygiad hefyd ganfod tystiolaeth o'r manteision mesuradwy o ddarparu addasiadau i'r economi iechyd a gofal cymdeithasol.

Er mwyn casglu data ansoddol am brofiad lleol asiantaethau Gofal a Thrwsio, eu partneriaid statudol a derbynwyr y grantiau a'u gofalwyr ymwelwyd â chwe ardal, a ddewiswyd i ddarparu sampl gynrychioliadol ar draws Cymru. Ym mhob ardal cynhaliwyd cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda staff asiantaethau Gofal a Thrwsio, swyddogion awdurdodau lleol a derbynwyr grantiau a'u gofalwyr.

Yn y chwe ardal casglwyd data cryno hefyd yn ymwneud â sut roedd yr awdurdod lleol yn darparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) i roi cymhariaeth â'r data a

gasglwyd am y Grant Byw'n Annibynnol (ILG).

Canfyddiadau allweddol o adolygiad o'r llenyddiaeth

Mae deddfwriaeth a chanllawiau wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng yr adnoddau sydd ar gael o arian cyhoeddus ar gyfer y GCA (DFG) yn erbyn lefel gynyddol o alw. Bu'n nod hefyd i sicrhau bod addasiadau yn cael eu cyflawni yn fwy prydlon, ond mae hyn wedi bod yn anodd ei gyflawni. Mae astudiaethau olynol wedi cyfeirio at gymhlethdodau ac arafwch y broses gyfan o wneud addasiadau.

Mae rhai astudiaethau wedi dangos bod y Prawf Adnoddau yn sicrhau cyfraniad ariannol ymylol yn unig o'i gymharu â'r gost o weinyddu. Ond hyd nes y daeth y Grant Byw'n Annibynnol roedd gwrthwynebiad i'w ddileu, hyd yn oed ar gyfer gwaith am gost is.

Mae llawer o astudiaethau wedi dangos bod gweithio ar y cyd rhwng adrannau tai, iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu ffordd fwy effeithlon ac effeithiol o ddarparu addasiadau.

Mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth yn dangos bod tystiolaeth helaeth o fanteision *nad ydynt yn ariannol* addasiadau i unigolion a'u gofalwyr, gan gynnwys mwy o annibyniaeth, urddas, gwell ansawdd bywyd a lliniaru pryder.

Gallai'r manteision *ariannol* i'r economi iechyd a gofal cymdeithasol fod yn sylweddol, ond mae'r adolygiad o'r llenyddiaeth yn esbonio pam nad yw'r dystiolaeth yn dal yn gadarn. Mae'r tabl isod yn dwyn ynghyd yr ychydig o

wybodaeth sydd ar gael am gostau
iechyd a gofal yn erbyn cost
gyfartalog addasiad.

Manteision addasiadau yn erbyn costau iechyd a gofal

Costau cymharol ar gyfer pobl hŷn

Cost cyfartalog addasiad yw £7,000

- Defnyddir bron i ddwy ran o dair o welyau ysbyty cyffredinol ac aciwt gan bobl 65+ oed.
- Mae pobl hŷn yn syrthio yn y DU yn costio dros £1,000 miliwn y flwyddyn (59% yn cael ei dalu gan y GIG).
- Mae pob asgwrn clun a dorrir yn costio tua £33,000 y person.
- Mae gofal preswyl ar gyfer person hŷn yn costio £19,000 - £ 40,000 yf.
- Mae gofal preswyl ar gyfer oedolion anabl difrifol yn £42,000 - £74,000 yf.
- Mae anafiadau i'r cefn yn costio £602 miliwn y flwyddyn i'r GIG yn unig (gofalwyr yn aml).
- Gall addasiadau prydlon helpu i atal briwiau pwysu. Mae un wiser pwysu yn costio £200 yr wythnos (£10,400 mewn blwyddyn).

- Gall addasiadau arbed 4 blynedd o ofal preswyl gan arbed tua £80,000 y person.
- Gall gwelliannau ac addasiadau leihau'r risg o gwmpo o ryw 60%.
- Gall gwelliannau i eiddo leihau nifer yr ymweliadau at y meddyg teulu o ryw 40%.
- Mae pob £1 a werir ar RRAP yn arbed tua £7.50 ar gostau'r GIG /Gofal Cymdeithasol.

Costau cymharol ar gyfer plant

Mae estyniad llawr gwaelod sy'n darparu ystafell wely ac ystafell ymolchi

Mae'n anodd iawn priodoli arbedion mewn costau i ymyriad penodol megis GCA (DFG) neu GBA (ILG). Mae'r amgylchiadau sy'n arwain at fynd i'r ysbyty neu ofal preswyl yn gymhleth a bydd ymyrraeth unigol yn ddim ond rhan fach o'r stori

lawn. Fodd bynnag, efallai y bydd modd datblygu mesurau gwell. Mae un o awdurdodau Astudiaethau Achos y GBA (ILG) wedi dechrau gwneud rhai amcangyfrifon o'r arbedion gwirioneddol a phosibl mewn costau gofal cartref o ganlyniad i waith y GBA (ILG).

Canfyddiadau allweddol o'r dadansoddiad o'r ffurflenni a dderbyniwyd

Nid oedd y dyddiad cau ar gyfer yr adroddiad hwn yn caniatáu i ddata gael ei gasglu am yr holl achosion GBA (ILG). Cyfanswm y nifer o GBA (ILGs) a gwblhawyd erbyn diwedd mis Mawrth 2012 oedd 374, felly mae'r achosion y seilir yr adroddiad hwn arno yn cynrychioli 75% o'r cyfanswm.

Roedd 91% o gleientiaid dros 64 oed, 64% dros 74 oed, a 28% yn 85 oed neu fwy. Y grŵp 75-84 oedd y mwyaf niferus.

Y brif ffynhonnell atgyfeirio ar gyfer achosion y GBA (ILG) y bu i asiantaethau eu cymryd ymlaen oedd rhestr aros yr awdurdod lleol ar gyfer y Grant Cyfleusterau i'r Anabl (dwy ran o dair o achosion dilys lle darparwyd y wybodaeth hon), a ddilynwyd gan atgyfeiriad i ysbyty (18% o achosion).

Dewiswyd bron i bedwar o bob pum achos oherwydd natur frys yr angen. Cynhyrchodd problemau gyda phrawf modd y GCA (DFG) 14% o achosion.

Gofynnwyd i Asiantaethau nodi ffynhonnell unrhyw asesiad o anghenion cleientiaid *cyn* iddynt gael eu cyfeirio am GBA (ILG). Nodwyd ffynhonnell mewn ychydig llai na 90% o achosion. O'r rhain, cafodd ychydig dros ddwy ran o dair o gleientiaid eu hasesu gan therapydd galwedigaethol (ThG) awdurdod lleol cyn atgyfeirio. Cafodd 20% arall eu hasesu gan Therapydd Galwedigaethol y gwasanaeth iechyd; y rhain yn bennaf oedd yr achosion a oedd yn atgyfeiriadau ysbyty. Defnyddiwyd

ffynonellau eraill - staff Gofal a Thrwsio yn bennaf, neu Therapyddion Galwedigaethol preifat - mewn 12% o achosion.

Roedd y ffynonellau asesu ar gyfer y GBA (ILG) wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng Therapyddion Galwedigaethol yr awdurdod lleol (45% o achosion) a staff Gofal a Thrwsio (41%) gyda Therapyddion Galwedigaethol yr awdurdod iechyd yn cyfrif am 12%.

Cawodydd yn lle bath a lifftau grisiau oedd yr addasiadau mwyaf cyffredin a ddarparwyd drwy GBA (ILG) (25% o achosion yr un), a ddilynwyd gan reiliau, rampiau, ail-ddylunio ystafelloedd ymolchi, a chawodydd gyda lloriau graddedig.

Roedd tua thraean y tasgau yn perthyn i'r ystod £2,000 - £4,000, gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill yn costio llai na £2,000 (28%) neu £4,000 - £6,000 (26%). Dim ond 14% oedd yn costio dros £ 6,000. Cost gyfartalog y gwaith oedd £4,148.

Ar gyfartaledd, nododd asiantaethau Gofal a Thrwsio saith o fanteision ar gyfer pob achos a gwblhawyd, felly roedd yna deimlad clir ymysg staff y prosiect fod GBA (ILG) yn arf effeithiol ar gyfer sicrhau manteision gwirioneddol i gleientiaid.

Y manteision mwyaf cyffredin a nodwyd oedd y gostyngiad yn y risg o anaf yn dilyn syrthio, a gwell diogelwch / lles (dyfynnwyd y ddau mewn 95% o achosion). Dilynwyd y rhain gan ostyngiad yn y risg o gael eu derbyn i'r ysbyty (87%). Mae'r gostyngiad mewn anafiadau ac yn y risg o gael eu derbyn i'r ysbyty, a gwella diogelwch yn amlwg o fudd

mawr i gleientiaid. Crybwyllwyd llai o amser aros ar gyfer addasiadau mewn 74% o achosion, a ddilynwyd gan ostyngiad yn y risg o fod angen gofal cymdeithasol yn y cartref (49%) neu ofal nyrsio (45%), neu symud i ofal preswyl (37%) . Soniwyd am well mynediad i ac o'r cartref mewn 37% o achosion.

Mewn 12% o achosion, crybwyllwyd rhyddhad o'r ysbyty yn gynt - er bod y gyfran sy'n sicrhau'r fantais hon yn is nag eraill, mae'n fantais fawr ar gyfer cleientiaid ac ar gyfer adnoddau'r sector cyhoeddus. Yr addasiadau yr oedd yr achosion hyn yn fwy tebygol nag eraill o'u cynnwys oedd ramp, teclyn codi, ac yn arbennig, lifft grisiau.

Roedd ychydig o wahaniaethau rhwng yr asesiadau o fanteision a wnaed gan Therapyddion Galwedigaethol (rhai'r awdurdod lleol a rhai yn seiliedig yn y gwasanaeth iechyd) a'r rhai a wnaed gan asiantaethau Gofal a Thrwsio. Roedd ThG y gwasanaeth iechyd ychydig yn fwy tebygol o bwysleisio rhyddhad cynnar o'r ysbyty fel mantais, ac roedd Therapyddion Galwedigaethol yn gyffredinol yn fwy tebygol o sôn am fanteision na staff Gofal a Thrwsio.

Cafodd tua 30% o achosion eu cwblhau o fewn un mis a thraean arall o fewn un i ddau fis o atgyfeirio, gyda 16% o fewn dau neu dri mis. Dim ond 20% o achosion a gymerodd dros 90 diwrnod i'w cwblhau.

Roedd lefelau boddhad y cleientiaid yn uchel iawn. Roedd rhyw 99.6% o gleientiaid naill ai'n fodlon iawn neu'n fodlon ag effeithiolrwydd cyffredinol eu gwaith

addasu o dan GBA (ILG) ac nid oedd unrhyw un yn anfodlon.

Roedd y grantiau a ddarparwyd am gyfartaledd o £3,500, er bod tua chwarter am lai na £2,000 ac roedd 12% am £6,000 neu fwy. Roedd GBA (ILG) wedi talu am gost lawn y gwaith mewn 87% o achosion.

Canfyddiadau allweddol o ymweliadau'r astudiaethau achos

Gwnaed ymweliadau astudiaethau achos i chwe asiantaeth / ardal awdurdod lleol, a ddewiswyd i fod yn gynrychioliadol ar nifer o fynegeion:

- Casnewydd
- Abertawe / Castell-nedd Port Talbot
- Sir Gaerfyrddin
- Powys
- Sir y Fflint
- Ynys Môn

Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid mewn awdurdodau lleol ac Asiantaethau Gofal a Thrwsio wedi teimlo o dan bwysau oherwydd yr amser byr oedd ar gael i gytuno meini prawf ar gyfer GBA (ILG), i ymgynghori â chydweithwyr, i gynllunio ar gyfer cyflwyno'r grant a bod yn barod pan fyddai'r cyllid ar gael. Roedd rhai staff maes yn teimlo, oherwydd yr amser cyfyngedig oedd ar gael, nad ymgynghorwyd â nhw yn briodol am fanylion ymarferol cyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.

Ym mhob ardal dywedwyd wrthym bod perthynas waith dda yn bodoli eisoes nad oedd y GBA (ILG) yn gwneud dim mwy na'i hatgyfnerthu. Nodwn fod yna eithriad: roedd rhywfaint o swildod yn y rhyngwyneb â Therapyddion

Galwedigaethol yn seiliedig yn y gwasanaeth lechyd, naill ai o ran sicrhau eu cyfranogiad neu o ran perswadio Therapyddion Galwedigaethol Awdurdodau Lleol i dderbyn atgyfeiriadau gan Therapyddion Galwedigaethol yn seiliedig yn y gwasanaeth lechyd heb ailasesiad.

Roedd y mwyafrif yn croesawu'r fenter, yn teimlo ei bod wedi darparu addasiadau priodol ac mai'r rhai oedd yn eu derbyn oedd y bobl "iawn" i wneud hynny.

Gyda dim ond un neu ddau o eithriadau roedd swyddogion yr awdurdodau lleol a gafodd eu cyfweld yn croesawu absenoldeb ffurflen gais y GCA (DFG) a'r Prawf Adnoddau, gyda'r tasgau gweinyddol o ran gwirio a phrosesu sy'n mynd gyda nhw. Roeddent hefyd yn croesawu'r modd y gellid darparu'r gwaith yn gyflymach ac yn falch o hyblygrwydd y GBA (ILG). Roedd rhai pryderon, hyd yn oed ymhlith y rhai a gymeradwyai brosesau symlach y GBA (ILG), am annhegwch a grëwyd gan systemau cyfochrog, yn enwedig pan oedd un ar gael am gyfnod byr yn unig.

Roedd dwy asiantaeth Gofal a Thrwsio wedi defnyddio eu staff eu hunain i gynnal rhai asesiadau ac roeddent hefyd yn defnyddio Therapyddion Galwedigaethol preifat i gynnal asesiadau; mae un arall yn defnyddio ThG sy'n gweithio o fewn yr asiantaeth fel mater o drefn. Roedd un arall wedi dymuno defnyddio eu staff eu hunain ar gyfer rhai asesiadau ond canfu na fyddai partneriaid statudol yn cytuno â'r trefniant hwn.

Er bod yr ymatebion i'r gwasanaeth yn gyffredin ymhlith safleoedd yr

astudiaethau achos: gyda liffitiau grisiau, cawodydd gyda mynediad gwastad, rampiau modiwlaidd yn nodweddiadol, roedd y bwriadau strategol yn amrywio. Roedd rhai yn anelu at gael gwared â'r achosion syml oedd ar y rhestr aros am GCA (DFG), er enghraifft y rhai yr oedd eu cais am GCA (DFG) wedi ei oedi ac a oedd yn cael ei ddal yn ôl oherwydd anawsterau wrth brofi teitl. Roedd eraill yn anelu at ddarparu gwaith "galluogi" ar gyfer y rhai y byddai eu pecyn cyfan drwy GCA (DFG) yn cymryd peth amser, darparu liffit grisiau, er enghraifft, i roi mynediad i ystafell wely a thoiled wrth aros am ddarparu ystafell gwod gyda llawr gwlyb llawn drwy GCA (DFG). Y rhai mwyaf trawiadol oedd y rhai a oedd wedi gwneud gofal lliniarol yn flaenoriaeth, lle nad oedd disgwyliad oes ond ychydig fisoedd.

Roedd rhai yn defnyddio Grant Byw'n Annibynnol i dreialu dulliau newydd: rampiau modiwlaidd ac, mewn un achos, "podiau cawod" fel enghreifftiau. Roedd rhai yn darparu ymyriadau lle gallai'r hyn a ddarperid ddod yn ôl i gael ei ailgylchu: rampiau modiwlaidd, rhai liffitiau grisiau gyda rheiliau syth a'r podiau cawod.

Roedd pawb a dderbyniodd grant yn gwerthfawrogi cyflymder y gwasanaeth a'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol a'r staff Gofal a Thrwsio. Roedd y canlynol yn achosion nodweddiadol: dyn y galluogwyd iddo fynd y tu allan yn ei gadair olwyn drwy ddarparu ramp modiwlaidd yn gyflym ar ei gyfer, menyw a oedd wedi cael ei rhyddhau o'r ysbyty i gartref gofal yn gallu dychwelyd i'w chartref ei

hun trwy ddarparu liff t grisiau, a dynes y cafodd y risg o gwmpo fel yr oedd wedi gwneud droeon o'r blaen ar y grisiau ei liniaru drwy ddarparu liff t grisiau. Enghraifft arall yw dyn yn gallu defnyddio'r toiled ar lawr uchaf ei dŷ, yn hytrach na chomôd yn yr ystafell fyw, gan roi hwb enfawr i'w urddas, hunan-barch a'i les cyffredinol. Yn yr un achos mae gofalwyr sy'n aelodau o'r teulu wedi cael eu rhyddhau o'r angen i ddod i'r tŷ i sicrhau ei ddiogelwch bob tro y mae'n defnyddio'r grisiau i fynd i neu o'i ystafell wely.

Roedd y rhan fwyaf o gyfweleion yn ei chael yn anodd dod o hyd i unrhyw agweddau negyddol i'r fenter. Roedd rhai o'r farn bod delio â rhai cleientiaid yn y broses gyflym ac anfiwrocraidd hon, a heb ddefnyddio Prawf Adnoddau, pan oedd yn rhaid i eraill gael eu prosesu drwy'r system Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, yn arwain at annhegwch. Teimlid hyn yn fwyaf dwys pan oedd cronfeydd GBA (ILG) i gyd wedi eu hymrwymo a lle roedd cleientiaid newydd yn ôl yn system sefydledig y GCA (DFG) gyda'i Brawf Adnoddau a'i amserlen hwy ar gyfer cyflawni'r gwaith.

Cymhariaeth â GCA (DFG)

Ac eithrio addasiadau mawr iawn, sydd fel arfer yn cynnwys estyniadau i gartrefi neu waith adeiladu mawr tebyg, mae'r amrywiaeth o addasiadau a ddarperir gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn debyg iawn i'r hyn a gyflwynir drwy'r Grant Byw'n Annibynnol: liff tiau grisiau, cawodydd gyda mynediad gwastad iddynt a rampiau.

Ymhlith y chwe awdurdod y cynhaliwyd yr astudiaethau achos ynddynt mae'r amser a gymerir o'r atgyfeiriad i gwblhau addasiad o dan y broses GCA (DFG) yn amrywio o 315 diwrnod i 632 diwrnod, gyda chyfnod cyfartalog nodweddiadol o 340 diwrnod. Mae'r amser o atgyfeiriad i gwblhau GBA (ILG) yn amrywio o 32 i 78 diwrnod gyda chyfartaledd o oddeutu 58 diwrnod.

Casgliadau

O'r pedwar prif amcan a osodwyd ar gyfer y fenter bodlonwyd y rhai oedd yn ymwneud â lleihau rhestrau aros awdurdodau lleol am addasiadau ac ychwanegu at annibyniaeth. Ymdriniwyd â'r rhai oedd yn ymwneud â chyflymu'r gwaith o ryddhau cleifion o'r ysbyty a lleihau'r pwysau ar dderbyniadau aciwt ond roedd y dystiolaeth yn llai pendant.

Mae absenoldeb Prawf Adnoddau a phroses a dogfennau llawer symlach yn cael eu hystyried fel elfennau sydd wedi cyfrannu at ganlyniadau cyflymach ac at ganiatáu i bobl eraill a oedd wedi cael eu heithrio gan y system GCA (DFG) sicrhau addasiadau priodol.

Roedd gallu cwblhau addasiadau yn llawer cynt yn cael ei ystyried yn glir fel prif fantais y GBA (ILG), gan fesur yr amser o'r atgyfeiriad i gwblhau'r gwaith mewn wythnosau yn hytrach na misoedd.

Roedd y GBA (ILG) yn darparu modd o fynd i'r afael ag achosion oedd ag anghenion gofal lliniarol, gan gynnwys y rhai gyda

phrognosis o ddisgwyliad oes cyfyngedig.

Roedd y GBA (ILG) yn adeiladu ar batrymau o gydweithio sy'n bodoli ar hyn o bryd ac ystyriwyd ei fod wedi gwella'r cysylltiadau hyn ymhellach.

Gwerthfawrogir canlyniadau cyflymach gan dderbynwyr y grantiau a chan ofalwyr, ac mae hyn yn cyfrannu at hyder yn y gallu i fyw'n annibynnol, yn lliniaru risg ac yn arwain at wella lles.

Er bod y cyfle i ddysgu o'r ymarferiad hwn, cael mwy o amser i gynllunio unrhyw ailadrodd, ac arweiniad clir ynghylch meini prawf a darparu'r gwaith, yn ddyheadau a leisiwyd gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd yn yr awdurdodau lle cynhaliwyd yr astudiaethau achos byddai'r rhan fwyaf yn cefnogi parhad y GBA (ILG).

Argymhellion

Yn deillio o'n gwerthusiad o'r rhaglen beilot ar gyfer y Grant Byw'n Annibynnol cynigiwn yr argymhellion canlynol:

1. Gan nodi llwyddiant treial y Grant Byw'n Annibynnol, dylai Llywodraeth Cymru geisio nodi adnoddau, sy'n ychwanegol at y rhai a ddyrannwyd yn barod ar gyfer GCA (DFG), a fyddai'n caniatáu i'r (GBA) ILG gael ei ddarparu yn y dyfodol, a hynny os yn bosibl drwy weithredu'r GBA (ILG) fel cynllun peilot pellach dros isafswm o dair blynedd.
2. Dylid cyflwyno unrhyw estyniad i'r GBA (ILG) drwy bartneriaethau lleol a arweinir

gan yr asiantaeth Gofal a Thrwsio ac yn cynnwys adrannau tai awdurdodau lleol ac asiantaethau gofal cymdeithasol i oedolion (gan gynnwys y gwasanaeth Therapyddion Galwedigaethol sy'n seiliedig ar y gymuned) a chyrff iechyd (gan gynnwys therapyddion galwedigaethol sy'n seiliedig ym maes iechyd).

3. Dylai profiad asiantaethau a'u partneriaid i weithredu GBA (ILG) gael ei rannu trwy ddarparu gweithdai rhanbarthol a fydd yn rhoi amlygrwydd arbennig i geisiadau am GBA (ILG) a fabwysiadodd ymatebion arloesol at yr angen i addasu.
4. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu deialog pellach rhwng partïon â diddordeb i adolygu'r manteision a'r risgiau sy'n deillio o drefniadau eraill ar gyfer asesu am addasiadau.
5. Dylai Llywodraeth Cymru baratoi canllawiau cyn parhau â'r GBA (ILG) a fydd yn ymateb i rai o'r pryderon am bwrpas, blaenoriaeth a ffiniau i ymarfer a nodwyd yn y gwerthusiad.
6. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu gwaith pellach i astudio effaith addasiadau ar y cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol drwy astudiaeth hydredol.

Awduron: Nigel Appleton
Philip Leather
Sheila Mackintosh

ISBN: 978 0 7504 7504 4